

Ymateb i argymhellion yr adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau buddsoddi mewn seilwaith yn y tymor hwy, sy'n blaenoriaethu ac yn dyrannu ffynonellau cyllid i brosiectau i sicrhau bod darlun clir o faint o fenthycyca fydd ei angen yn y blynyddoedd i ddod.

Derbyn

Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP), a gyhoeddwyd yn 2012, yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith dros gyfnod o ddeng mlynedd er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd effeithiol a bod modd barnu rhwng galwadau sy'n cystadlu. Mae'r llyf prosiectau sy'n gysylltiedig â WIIP yn cynnwys manylion yr holl gynlluniau hynny (dros £15m) y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt ar hyn o bryd neu y mae'n bwriadu dechrau buddsoddi ynddynt yn ystod y tair blynedd nesaf, gan ddarparu rhagolwg o'r buddsoddiad arfaethedig. Mae'r llyf hefyd yn nodi prosiectau seilwaith sy'n cael eu cyllido a'u cyflawni gan Awdurdodau Lleol partner, yn ogystal â phrosiectau yn y sectorau dŵr, ynni a rheilffyrdd a ariennir gan y sector preifat.

Er mwyn sicrhau bod WIIP yn parhau i fod yn berthnasol, gwnaethom hefyd gyhoeddi adolygiad canol cyfnod y cynllun y llynedd yn diweddar ein cyfeiriad strategol, ac rydym bellach yn dechrau datblygu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r strategaeth seilwaith nesaf, a fydd yn olynu WIIP. Wrth ddatblygu'r strategaeth honno, byddwn yn ystyried y cyfle i fodelu amrywiaeth o senarios er mwyn asesu'r sefyllfa bosibl o ran ein cyllid canolog yn y dyfodol. Bydd nodi'r "bwlch" rhwng cyfleoedd buddsoddi a'r cyllid sydd ar gael yn ein galluogi i ddeall ein gofynion benthycyca cyhoeddus a phreifat posibl yn y dyfodol yn well. Byddwn hefyd yn ceisio ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) yn ei adroddiad cyntaf ar 'gyflwr y genedl' yn 2021, a sut y gall hyn ddylanwadu ar y ffordd y byddwn yn benthycyca.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried paru ffynonellau cyllid â'r risg ar draws oes prosiect, er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfalaf sydd ar gael a lleihau'r costau ariannu.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, pe bai angen benthyca y tu hwnt i'r swm cyfanredol o £1bn sydd ar gael ar hyn o bryd, y byddai'n bwysig ystyried paru ffynonellau cyllid â'r risg ar draws oes prosiect. Gan fod y mwyafrif helaeth o brosiectau seilwaith Llywodraeth Cymru yn cael eu hariannu drwy ein Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (wedi'i atgyfnerthu drwy fenthyca cyfalaf), nid yw cost y ffynonellau cyllid hyn yn dibynnu ar risg y prosiect y maent yn ei ariannu. O ganlyniad, nid oes dim mantais o ran cost benthyca wrth ddyrannu cyllid drwy fenthyciadau i risg prosiect. Byddwn yn adolygu'r dull gweithredu hwn fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun a fydd yn olynu'r WIIP presennol.

Lle rydym yn defnyddio cyllid o'r sector preifat (er enghraifft yn ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol), mae hwn eisoes wedi cael ei ddyrannu i brosiectau penodol, a'r rhai yr ystyrir eu bod yn "risg isel", gan leihau costau. Er enghraifft, er bod adeiladu ffyrdd yn dechnegol gymhleth, mae marchnad aeddfed yn bodoli ar gyfer dylunio, adeiladu, ariannu a chynnal a chadw'r asedau hyn. Mae eithrio "gwasanaethau meddal" o gontractau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn dangos na ddefnyddir cyllid drutach pan fyddai'n fwy manteisiol defnyddio cyllid confensiynol rhatach.

Wrth i ni ddatblygu modelau cyllido gwahanol, a chael rheolaeth ar ysgogiadau ariannol ychwanegol, byddwn yn ystyried a fydd angen dull paru manylach rhwng prosiectau a ffynonellau cyllid. Mae'r broses o ddatblygu'r fersiwn nesaf o'n Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn rhoi'r cyfle i ni wneud hynny.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach sut y gellid defnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol fel benthyciad treigl i'r sector tai, er mwyn cefnogi darparwyr tai y tu hwnt i reolaeth gyhoeddus.

Derbyn

Er gwaethaf y cyfyngiadau a osodwyd ar y ffynhonnell gyllid hon, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddefnyddio pob ceiniog sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith a hybu twf economaidd yn yr hirdymor. Rydym eisoes wedi llwyddo i ddatblygu amrywiaeth o gynlluniau sy'n defnyddio Cyfalaf Trafodion Ariannol y gellir ei aildefnyddio, lle caiff ad-daliadau oddi wrth y derbynnydd cychwynnol eu hailgyflwyno i fenthycwyr newydd, gan gynnwys cynlluniau sy'n cynnig benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cyflwyno datblygiadau tai. Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu tai cymdeithasol sy'n ystyried cynnig cymysgedd o arian grant a benthyciadau di-log neu â llog isel i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gan leihau'r angen i gael gafael ar gyllid preifat drutach.

Gall datblygwyr tai eraill fanteisio ar Gronfa Datblygu Eiddo Cymru a Chronfa Safleoedd Segur Cymru (cyfanswm o £64.1m hyd at 2019-20) sydd eisoes yn defnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol i gynnig benthyciadau rhwng £150k a £4m. Gellir defnyddio'r benthyciadau hyn ar gyfer prosiectau datblygiadau preswyl, datblygiadau defnydd cymysg a datblygiadau masnachol yng Nghymru a phrosiectau safleoedd preswyl na ellir bwrw ymlaen â nhw â chyllid datblygu traddodiadol. Fodd bynnag, gall y premiwm risg sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol ar gyfer datblygwyr tai eraill wneud yr opsiwn cyllid hwn yn un costus, a fydd yn ystyriaeth bwysig yn yr arfarniad cyffredinol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru i archwilio dulliau arloesol o ddefnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol a chael gafael ar fuddsoddiad preifat mewn prosiectau cyfalaf.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ymdrechu i gydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o'r cyllid sydd ar gael i Gymru. Fel y nodwyd gennym mewn gohebiaeth flaenorol â'r Pwyllgor, mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol yn golygu na allwn ei ddefnyddio er mwyn gwneud benthyciadau uniongyrchol i awdurdodau lleol. Dim ond i wneud benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti y gallwn ei ddefnyddio a dim ond i drydydd partïon lle na fyddai benthycia yn sgorio yn erbyn benthycia net y sector cyhoeddus. Mae hyn hefyd yn golygu na allwn ddefnyddio'r Cyfalaf Trafodion Ariannol i ariannu gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru ei hun, grantiau na'r GIG.

Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol fod yn gorff cyfryngol i gyflawni cynlluniau yn lleol. Ymysg yr enghreifftiau o gynlluniau o'r fath sydd eisoes ar waith y mae'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi, Troi Tai'n Gartrefi a'r Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi (gwerth cyfanswm o £61.6m hyd at 2019-20).

Yn unol â'n hymrwymiad i ddefnyddio pob ceiniog sydd ar gael i fuddsoddi mewn seilwaith a hybu twf economaidd yn y tymor hir, byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar ein holl ysgogiadau cyfalaf. Sefydlwyd gweithgor ar y cyd â Thrysorlys EM a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn rhannu arferion gorau ac enghreifftiau o'r ffordd y mae trafodion ariannol yn cael eu defnyddio. Wrth gynnal yr archwiliadau hyn, byddwn yn ystyried, ar y cyd ag awdurdodau lleol, y ffordd orau o ddefnyddio Cyfalaf Trafodion Ariannol i gael gafael ar fuddsoddiad o'r sector preifat.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar gydweithrediad agosach â llywodraeth leol i ddarparu dull mwy integredig o fuddsoddi mewn seilwaith ar lefel genedlaethol a lleol.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau'n cyd-fynd â'i gilydd ac yn cael eu targedu er mwyn cael yr effaith fwyaf.

Ers 2012, mae llif prosiectau WIIP wedi darparu darlun parhaus o gynlluniau buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau llywodraeth leol, er mwyn helpu'r sector preifat a'r sector cyhoeddus i wneud penderfyniadau ar fuddsoddi, hwyluso gwaith cynllunio strategol a hyrwyddo cydweithrediad.

Rydym yn parhau i gyflawni ail gam ein rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru, a fydd yn gwneud buddsoddiad disgwylidig o £2.3bn ledled Cymru, gan gefnogi amcangyfrif o 200 o brosiectau i ailadeiladu ac adnewyddu ysgolion a cholegau.

At hynny, aeth y Fenter Benthycu Llywodraeth Leol i'r afael â'r pwysau ar wariant cyfalaf Awdurdodau Lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid referniw hirdymor a sicrhodd fod modd i Awdurdodau Lleol fuddsoddi tua £340m mewn seilwaith cyhoeddus.

Yn dilyn llwyddiant y cynlluniau hyn, rydym wedi sefydlu'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol, a fydd yn buddsoddi cyfalaf gwerth tua £150m yn asedau atal llifogydd Awdurdodau Lleol.

Gan adeiladu ar ein dull gweithredu presennol, wrth i ni ddatblygu ein strategaeth newydd ar gyfer seilwaith, byddwn yn ymgysylltu'n agos â llywodraeth leol er mwyn ystyried sut y gallwn gyflwyno dull gweithredu mwy integredig at ddarparu buddsoddiad mewn seilwaith yn genedlaethol ac yn lleol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod prosiectau a gaiff eu cyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn gwbl dryloyw, a bod costau'r prosiect a'r data cysylltiedig yn glir.

Derbyn

Mae bod yn fwy tryloyw wedi bod yn un o brif ystyriaethau Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Felly, mae gofynion adrodd sy'n gwella tryloywder wedi cael eu hymgorffori yn y model, a chânt eu hymgorffori fel ymrwymadau contractiol mewn cytundebau rhwng awdurdodau caffael y sector cyhoeddus a phartneriaid preifat. Bydd hawl gan y sector cyhoeddus hefyd i enwebu Cyfarwyddwr ar fwrdd y cwmni prosiect sy'n cyflawni cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

O ran cost cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, bydd yn ofynnol i bob cynllun a ddarperir drwy'r model ddefnyddio'r Model Pum Achos er mwyn datblygu'r achos busnes angenrheidiol. Ar ben hynny, bydd yr holl gynlluniau yn destun haen ychwanegol o graffu trylwywr gan ddefnyddio Pwyntiau Cymeradwyo Masnachol yn ystod y broses o'u datblygu a'u caffael. Arbenigwyr nodedig yn y maes sy'n cynnal Pwyntiau Cymeradwyo Masnachol. Mae'r gwaith o gynnal y Pwyntiau Cymeradwyo Masnachol ar gyfer dau gynllun y Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n mynd drwy'r broses gaffael ar hyn o bryd (deuoli'r A465 a Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif) wedi cael ei wneud ar y cyd ag arbenigwyr o Fanc Banc Buddsoddi Ewrop, Scottish Futures Trust a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau.

Yn ystod gweithrediadau, caiff cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol eu hariannu drwy Daliad Gwasanaeth Blynyddol a gaiff ei addasu i'r cynllun penodol gan ddefnyddio Dull Talu. Y brif egwyddor sy'n sail i'r Dull Talu yw y caiff y Taliad Gwasanaeth Blynyddol ei dalu'n llawn, os bydd y seilwaith ar gael yn llawn. Os na fydd y seilwaith ar gael o gwbl, ni fydd unrhyw daliad i'r partner preifat. Pan fydd y seilwaith ar gael yn rhannol, bydd y Dull Talu yn penderfynu ar y didyniad priodol o'r Taliad Gwasanaeth Blynyddol. Bydd yn rhaid rheoli contractau'n effeithlon er mwyn sicrhau y caiff y Dull Talu ei gymhwyso yn ôl y disgwyl.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu lefel yr arbenigedd sydd ar waith ar gyfer rheoli contractau, a chymryd camau i gynnal yr arbenigedd hwn i sicrhau y caiff prosiect ei gyflawni'n effeithiol trwy gydol ei oes.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod modd sicrhau gwerth am arian drwy reoli contractau'n effeithiol, yn ogystal â llunio manylebau a chaffael seilwaith mewn ffordd drylwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu lefelau'r adnoddau sydd eu hangen i reoli contractau cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd, gyda'r nod o sicrhau y caiff swyddogaeth rheoli contractau ei sefydlu cyn i gynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ddechrau ar y broses adeiladu yn 2020. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau contractio eraill ar gyfer cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol gydweithio i gyflawni swyddogaeth rheoli contractau'r sector cyhoeddus.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer prosiectau sy'n gofyn am barhad dros oes y contract a lle gall y sector preifat ddarparu'r gwerth am arian mwyaf.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol fel opsiwn ariannu ochr yn ochr â ffynonellau cyllid cyfalaf eraill. Bydd ei ddefnyddio y tu hwnt i'r llif prosiectau presennol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y galw, argaeledd cyfalaf traddodiadol a chyfalaf trafodion ariannol, terfynau benthyca cyfalaf, a maes o law, arfarniad integredig o unrhyw gynllun a'i sicrwydd.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i ddefnyddio modelau cyllido amgen i ddatgloi buddsoddiad preifat pellach ar gyfer prosiectau cyfalaf yng Nghymru.

Derbyn

Fel y nodwyd yn *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – Diweddariad ar y Llif Prosiectau 2019*, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i bartneriaid ym mhob sector, wedi datblygu llif cynhwysfawr o fuddsoddiad mewn seilwaith, sy'n agwedd hanfodol ar uchelgais y llywodraeth i greu Cymru sy'n gyfartal, yn ffyniannus ac yn wyrdd. Ers cyhoeddi'r *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* yn 2012, mae amrywiaeth o gynlluniau cyllido amgen wedi cael eu datblygu a'u defnyddio.

Y cynllun cyllido amgen cyntaf a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ar ôl mabwysiadu'r Cynllun oedd Menter Benthycia Llywodraeth Leol. Arweiniodd y cynllun hwn, a aeth i'r afael â'r pwysau ar wariant cyfalaf Awdurdodau Lleol, at fuddsoddi cyfalaf ychwanegol o ryw £170m mewn priffyrdd lleol rhwng 2012 a 2015. O ganlyniad i lwyddiant y cynllun hwn, rhoddwyd ail gam Menter Benthycia Llywodraeth Leol ar waith yn 2015 er mwyn cyflymu'r broses o ddarparu Band A o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif – gan arwain at fuddsoddi cyfalaf pellach o ryw £170m.

Er nad ydynt yn ateb i bob problem, mae Bargeinion Dinesig a Thwf yn adnodd pwysig yn ein dull strategol o ymdrin â datblygiad economaidd rhanbarthol a chodi cyllid ychwanegol, gan gynnwys buddsoddiad gan y sector preifat. Er enghraifft, nod Bargaen Ddinesig £1.3bn Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yw rhoi hwb o £1.8bn i'r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd dros 15 mlynedd, gan ddenu £637m o'r sector preifat.

Mae rhaglen waith fanwl yn mynd rhagddi ar hyn o bryd o ran trethu lleol, sy'n ystyried dulliau amgen o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a all gynnwys nodweddion sydd â'r nod o ddatgloi potensial ein cymunedau i dyfu. Mae egwyddor cyllido drwy drethi cynyddol yn galluogi awdurdod lleol i godi cyllid drwy fenthycia er mwyn cefnogi gwaith i ddatblygu seilwaith, a chadw'r cynnydd canlyniadol mewn treth eiddo (h.y. ardrethi annomestig) er mwyn ad-dalu'r benthyciad, er bod hyn yn gysylltiedig â chadw ardrethi lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad yw cadw ardrethi yn ei ystyr ehangaf yn addas i Gymru ar hyn o bryd, o ganlyniad i broblemau o ran maint a chapasiti rhai awdurdodau lleol i elwa ar drefniadau o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn ystyried cynigion mwy penodol i gadw ardrethi er mwyn helpu i ddatblygu bargeinion dinesig a thwf. Er bod angen ystyried dulliau cyllido newydd sy'n ymwneud â newidiadau yn ein hymagwedd at drethu lleol ochr yn ochr â'r broses ehangach o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru, byddwn yn parhau i gadw llygad ar y cynnydd a wneir o ran cyllido drwy drethi cynyddol mewn ardaloedd eraill yn y DU.

Yn y sector Tai, datblygwyd y Grant Cyllid Tai i weithredu ochr yn ochr â'r Grant Tai Cymdeithasol. Drwy gam cyntaf y Grant Cyllid Tai, cododd 19 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru £130m o gyllid newydd i ariannu'r broses o

ddarparu rhyw 1,000 o dai fforddiadwy. Yn gynharach yng nghyfnod y Cynulliad hwn, lanswyd cam newydd o'r Grant Cyllid Tai gwerth £250m, a fydd yn treblu maint y cynllun gwreiddiol. Disgwylir i'r ail gam hwn o fuddsoddiad, sydd yn ei drydedd flwyddyn ar hyn o bryd, ddarparu rhwng 1,500 a 2,000 o unedau tai, gan wneud cyfraniad sylweddol at darged tai fforddiadwy'r Llywodraeth. Disgwylir hefyd i awdurdodau lleol elwa'n uniongyrchol ar y cyllid hwn.

Yn ystod y Flwyddyn Ariannol hon, mae cynllun cyllido amgen newydd, sef y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol, wedi dechrau gweithredu. Ar ôl ariannu'r gwaith dichonoldeb a dylunio, mae Llywodraeth Cymru bellach yn darparu cyllid referniw i gefnogi 75 y cant o'r costau o adeiladu o ran asedau newydd Awdurdodau Lleol i amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y cynllun hwn ar waith am dair blynedd a disgwylir iddo ddenu buddsoddiad cyfalaf o ryw £150m.

Er mwyn datblygu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, roedd angen ystyried modelau Model Dosbarthu Di-elw a Model Hybiau Llywodraeth yr Alban yn helaeth. Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn adeiladu ar y dulliau gweithredu hyn. Mae Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif (Model Buddsoddi Cydfuddiannol) yn cyflwyno nifer o agweddau newydd arloesol gan adeiladu ar fodel Hybiau Llywodraeth yr Alban ac yn gwneud addasiadau i fynd i'r afael â'i ddsbarthiad ymhlith pethau eraill. O dri chynllun y Model Buddsoddi Cydfuddiannol sydd yn yr arfaeth – deuoli'r A465 a Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif, a datblygu canolfan ganser Felindre – mae dau ohonynt yn mynd drwy'r broses gaffael a disgwylir iddynt gyrraedd cytundeb ariannol a masnachol yn 2020.

Mae cynlluniau Menter Benthycu Llywodraeth Leol, y Grant Cyllid Tai, y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cyfrannu at fuddsoddi cyfanswm ychwanegol o fwy na £2bn yn y seilwaith cyhoeddus yng Nghymru na fyddai wedi mynd rhagddo fel arall, neu na fyddai wedi bod yn fforddiadwy yn y byrdymor i'r tymor canolig.